

MAE'N FLWYDDYN NEWYDD!

Llefarydd:

*Geisiwch yr Arglwydd tra gellir ei gael,
galwch arno tra bydd yn agos.*

*Gadawed y drygionus ei ffordd,
a'r dyn anwir ei fwriadau,
a dychwelyd at yr Arglwydd, iddo drugarhau wrtho,
ac at ein Duw ni, oherwydd fe faddau yn helaeth.*

Cyd-weddiwn:

Diolchwn ein Tad am dy wahoddiad cynnes i'th bresenoldeb sanctaidd. Yn dy drugaredd, cynorthwya ni i nesáu atat yn gywir ein calon ac yn ddiolchgar ein hysbryd. O Dad, dyro dy help i bawb sy'n cymryd rhan yn y gwasanaeth hwn, a gwêl yn dda i'n bendithio â meddyginiaeth dy gariad. Clyw ein gweddiâu yn enw ein Harglwydd Iesu Grist. Amen.

Emyn: 90 – *O am ddechrau blwyddyn newydd*

Darlleniad: Salm 138

Llefarydd:

Ambell dro, fe welwn y llythrennau AD gyda dyddiad y flwyddyn. Beth yw ystyr y llythrennau? Cwtogiad ydynt o eiriau Lladin '*Anno Domini*', yn golygu '*ym mlwyddyn yr Arglwydd.*' Fel Cristnogion, rydym yn cyfrif ein blynyddoedd yn ôl '*oed Crist*', ac wrth wneud hynny, rydym yn cydnabod mai'r Arglwydd Iesu biau ein blynyddoedd.

Ym mis Ionawr, cawn gyfle i edrych yn ôl i'r gorffennol, ac ymlaen i'r dyfodol. Bu gorffennol y rhan fwyaf ohonom yn gymysgedd o lawenydd a thristwch, ac o lwyddiant a methiant. Ni allwn newid methiannau ein gorffennol, ond fe allwn bwysu ar drugaredd a chariad di-ymollwng Duw tuag atom yn Iesu Grist. Parodd hyn i'r emynydd ganu yn hyderus,

*Dysg im edrych i'r gorffennol,
hyn a ladd fy ofnau i gyd:
dy ddaioni a'th drugaredd
a'm canlynant drwy y byd;
os daw deigryn, storm a chwmwl,
gwena drwyddynt oll yn llwyr
enfys Duw, sy'n para i ddatgan,
bydd goleuni yn yr hwyr.*

Emyn: 726 – Dal fi'n agos at yr Iesu

Llefarydd:

Y mae blwyddyn newydd yn rhoi cyfle inni hefyd i gamu ymlaen i'r dyfodol, '*gan gadw ein golwg ar Iesu, awdur a pherffeithydd ffydd.*' Y mae gobaith i'r Cristion yn un o rinweddau mawr y ffydd Gristnogol, a byrdwn cyson y Testament Newydd yw mai yn y dyfodol y mae cartref gobaith, pan ddatguddir buddugoliaeth derfynol Duw yn Iesu Grist. Ond tybed faint ohonom sy'n credu hyn mewn gwirionedd? Yn un o'r adnodau a ddarllenir wrth gyfranogi o Sacrament Swper yr Arglwydd, dywedir y byddwn '*yn cyhoeddi marwolaeth yr Arglwydd, **hyd nes y daw.***' Tybed a ydym yn sylweddoli aruthredd neges cymal olaf y frawddeg hon, sef, '*hyd nes y daw.*'? Y mae'r cymal byr hwn yn rhagdybio mai eiddo Iesu yw'r dyfodol, a bod y Cymun yn ernes o'r pethau sydd wedi'u paratoi ar ein cyfer. Yn wir, onid tamaid i aros pryd yw'r Cymundeb, ac y daw'r dydd y cawn gyd-wledda gyda'n Harglwydd yn y gogoniant? Yn y cyfnod dreng rydym yn byw ynndo, gyda'i ryfeloedd dieflig a miloedd o bobl yn cael eu cam-drin a'u lladd, y mae'n hawdd rhoi'r gorau i'r ysbryd, ac ymollwng i anobaith llwyr. Ond gadewch inni gofio nad ymfrost gwag y gwleidyddion militaraid yw sail ein gobaith ond grym cariad Duw yn Iesu Grist ar waith heddiw yn y byd, ac ym mywydau'r rhai sy'n credu yn ei enw.

Cyd-weddiwn:

Ein Tad trugarog, cydnabyddwn yn ddiolchgar mai ynot ti yr ydym yn byw, yn symud ac yn bod. Ti yw ein Cynhaliwr caredig sydd wedi ein

cynnal a'n cadw ar hyd y blynyddoedd. Mawr yw dy drugaredd tuag atom, a'n henaid a wŷyr hynny yn dda. O Arglwydd, derbyn ein diolch a'n clod.

Derbyn ein diolch hefyd am dy gariad di-ymollwng tuag atom yn lesu Grist. Er inni dy siomi lawer gwaith a dilyn ein chwantau pechadurus, ni adewaist mohonom yn amddifad o'th ras, na dannod ein methiannau. O Dad, yn enw dy Fab a fu farw drosom ar Galfaria, trugarha wrthym, a dyro inni dy faddeuant, a chyfle newydd i fyw i ti. Cadw ni rhag pob drwg, a thywys ni i wneud yr hyn sydd wrth dy fodd.

Gweddïwn dros ein hanwyliaid a'n cyd-aelodau o'th Eglwys. Taena dy adain yn rasol drostynt oll. Cyflwynwn bawb a garai ran yn ein gweddïau, ac yn arbennig y rhai sy'n dioddef anghyfiawnder a phoen oherwydd gorthrwm eraill arnynt. O Dad,

*Teyrnasa dros ein daear oll,
myn gael pob gwlad i drefn:
o adfer dy ddihalog lun
ar deulu dyn drachefn.*

Clyw ein gweddïau yn enw lesu Grist a'n dysgodd i weddïo, 'Ein Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd..... Amen.

Emyn: 70 – O Dduw a Llywydd oesau'r llawr

Darlleniad: Rhufeiniaid 13: 8-14

Llefarydd:

Tybed faint ohonom sydd wedi teimlo'n gysglyd mewn oedfa, gyda'n llygaid yn hanner agored a'n meddyliau ymhell? Y mae ambell bregethwr, efallai, yn hirwyntog ac yn drymaidd, ond yn sicr, y mae ymateb cysglyd i newyddion da Duw yn lesu Grist yn sarhad mawr. Mae'r geiriau 'deffro' a 'chysgu' i'w cael nifer o weithiau yn y Beibl. Yn llyfr Genesis, cawn Jacob, yn ei gwsg ym Methel, yn gweld ysgol yn cyrraedd y nefoedd, gydag angylion Duw yn esgyn i'r nefoedd ac yn disgyn i'r ddaear. Yn llyfr y Salmau, cawn yr adnod, 'Yr wyf yn gorwedd

ac **yn cysgu**, ac yna'n deffro am fod yr Arglwydd yn fy nghynnal.' Yn llyfr yr Actau, cawn geidwad carchar Philipi **yn cysgu** pan ysgydwyd muriau'r carchar gan ddaeargryn, a'i ddeffro mewn braw mawr. Hanes cyfarwydd arall yw'r disgyblion **yn cysgu** yng ngardd Gethsemane tra roedd yr Arglwydd Iesu yn gweddio.

Onid yw'n hawdd i ninnau hefyd esgeuluso'n gwaith fel Cristnogion, a syrthio i ddiymadferthedd cwsg fel y disgyblion gynt? Yn y Testament Newydd, fe ddywedir wrthym fod yr amser wedi dod i ymysgwyd o'n cysgadwydd ysbrydol. Dywed yr Apostol Paul, '*Deffro di sydd yn cysgu, a chyfod oddi wrth y meirw, ac fe dywynna Crist arnat.*'

Mae'r gorchymyn i godi oddi wrth y meirw yn golygu fod dod yn Gristion yn ddigwyddiad mor chwyldroadol â chael ein codi o dywyllwch anobaith i oleuni'r bywyd newydd yn Iesu Grist. Plant y Goleuni yw Cristnogion, a chymdeithas y wawr yw'r Eglwys Gristnogol. Meddai Paul ymhellach, "*Y mae'r nos ar ddod i ben, a'r dydd ar wawrio. Nid ydym yn perthyn i'r nos nac i'r tywyllwch.*" Un o nodweddion plant y goleuni yw eu bod yn effro yn ysbrydol, ac yn barod i gyflawni ewyllys cariad Duw. Ond beth yw ystyr hyn yn ymarferol, a pha fodd y gallwn fyw fel plant y goleuni?

Llefarydd:

Yn gyntaf, drwy fod yn effro ein haddoliad i'r Arglwydd.

Dywed Paul wrthym:

'Cyfarchwch eich gilydd â salmau ac emynau, a chaniadau ysbrydol, canwch a phynciwch o'ch calon i'r Arglwydd. A diolchwch bob amser am bob dim i Dduw'r Tad yn enw ein Harglwydd Iesu Grist.'

Onid yw'r adnod hon yn gyfarwyddyd ardderchog sut i fod yn effro ein haddoliad i'r Arglwydd? Fe'n cymhellir gan Paul i ganu o'n calon, ac i ddiolch i'r Arglwydd yn gynnes ein hysbryd.

Yn ail, drwy fod yn effro ein tystiolaeth i'r Arglwydd.

Dywed Pedr wrthym, *'A byddwch barod bob amser i ateb y sawl a ofynno i chwi reswm am y gobaith sydd ynoch, gydag addfwynder ac ofn.'*

Mae'r Eglwys yn bod, nid yn unig i addoli Duw yn y capel ar y Sul, ond i genhadu'r Efengyl weddill ddyddiau'r wythnos. Yn rhy aml, rydym yn meddwl am yr Eglwys fel adeilad i ganu pedwar emyn, i wrando darlleniad o'r Beibl, i weddio, ac i wrando pregeth, ac yna, i gau'r drws tan y Sul dilynol! Onid yw'n bryd inni sylweddoli fod Eglwys yn fwy na brics a mortar? Ein braint yw dangos natur yr Eglwys Gristnogol yn ein bywyd bob dydd, ac yn ein cenhadaeth i Iesu Grist.

Yn drydydd, drwy fod yn effro ein gwasanaeth i'r Arglwydd.

Fe'n hanogir gan Paul i fod, *'yn ddiorffwys eich ymroddiad, yn frwd eich ysbryd, gwasanaethwch yr Arglwydd.'* Fe ddaeth yr Arglwydd Iesu i'n byd, *'nid i gael ei wasanaethu, ond i wasanaethu, ac i roi ei einioes yn bridwerth dros lawer.'* Onid i hyn y'n galwyd ninnau hefyd? Y mae gwasanaethu'r Arglwydd yn golygu ein bod yn effro ein clyw i wrando cri eraill, yn effro ein llygaid i weld angen pobl yn ein hymyl ac yn y byd, ac yn effro ein teimladau i deimlo poen pobl eraill. Cofiw'n eto anogaeth yr Apostol Paul, *'Deffra di sy'n cysgu, a chod oddi wrth y meirw, ac fe dywynna Crist arnat.'* Nid yw haul cariad Crist byth yn machlud, a'n braint yw adlewyrchu hynny yn ein parodrwydd i wneud ein rhan yng ngwaith ei deyrnas. Mawr yw ein braint, a'n cyfrifoldeb!

Emyn: 242 – *O doed dy deyrnas, nefol Dad*

Cyd-weddiwn:

Diolchwn iti, ein Tad, am neges dy Air inni heddiw, sy'n llusern i'n traed ac yn llewyrch i'n llwybrau, ac yn tystio i'th gariad anfeidrol tuag atom yn Iesu Grist. Diolchwn am dy gariad i gynhesu ein calonnau tuag atati a thuag at ein gilydd. Heb dy gariad di yn tywynnu arnom, byddem yn oer ein hysbryd ac yn llwydaidd ein gwedd. Heb dy gariad di o'n mewn, byddem hefyd yn galed ein calonnau ac yn ddi-ymateb i'th neges. O Dad, llewyrcha haul dy gariad arnom yn awr, a deffra ni o'n

cwsg a'm marweidd-dra ysbrydol i dystio i'r hyn sy'n dda ac yn gymeradwy, ac i weithredu haelioni dy gariad yn ein bywyd.

Gofynnwn am dy fendith ar dy Eglwys, fel y bydd yn gyfrwng i ddwyn llawer i gredu yn Iesu Grist ac i fyw er ei glod. O Dad,

*Dy Eglwys cofia hi
ar gyfyng awr ei thrai,
datguddia iddi'i bri,
a maddau iddi'i bai
am aros yn ei hunfan cyd,
a'i phlant yn crwydro ar faes y byd.*

O Dad, yn dy drugaredd, clyw ein gweddïau a rhagora ar ein deisyfiadau. Er mwyn Iesu Grist. Amen.

Emyn: 72 – *Nefol Dad, erglyw ein gweddi*

Y Fendith.

Diolchwn iti, ein Tad, am ddechrau blwyddyn yn dy gwmni, ac am foddion gras yr oedfa hon. Ac yn awr, arwain ni i wneuthur dy waith yn effro ein hysbryd ac yn frwd mewn gair a gweithred. A bydded gras ein Harglwydd Iesu Grist, a chariad Duw, a chymdeithas yr Ysbryd Glân gyda ni oll, yn awr, a hyd byth. Amen.